# Bwletin GwE

**CYDWEITHIO · DYSGU · LLWYDDO**

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## CYNADLEDDAU

### Dysgu proffesiynol i gefnogi cynnydd drwy'r cyfnod pontio 3-16

Sesiwn diwrnod llawn i benaethiaid ac aelodau uwch dimau arwain - sylwch mai sesiynau newydd yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio yn dilyn adborth o sesiynau Pontio GwE y llynedd

Bydd aelodau yn:

- Cael eglurhad o'r arweiniad perthnasol a'r gofynion statudol
- Deall sut mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol LlC a dulliau gweithredu Estyn
- Cael cyfle i wrando ar siaradwr arbenigol - Dave Harris, Independent Thinking - sesiwn NEWYDD
- Cael clywed sut mae rhai ysgolion a chlystyrau yn mynd ati i wella eu darpariaeth ar gyfer pontio 3-16
- Cael atebion ac eglurhad o rai cwestiynau cyffredin am bontio ac ymholiadau am gynnydd gan ysgolion
- Cael amser i sgwrsio a chyfle i drafod yn agored a rhannu syniadau

20/10/2023 9:15-15:30 — Holiday Inn A55 Chester West

26/10/2023 9:15-15:30 — Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor

10/11/2023 9:15-15:30 — Canolfan Fusnes Conwy

Darperir cinio

Anfonir agenda lawn maes o law.




**Cliciwch ar y dolenni uchod i gofrestru.**

Cyfyngir llefydd i 2 uwch arweinydd o bob ysgol.

Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY
0300 500 8087
Canolfan Cefnogaeth GwE
@GwEGogleddCymru
post@gwegogledd.cymru
www.gwegogledd.cymru
Cynnig Proffesiynol GwE
GwE Gogledd Cymru

## Diwrnod Rhaglen Llafaredd 'Ein Llais Ni'


**Lle: Venue Cymru, Llandudno** **24/10/2023 | 9:15 - 15:30** COFRESTRU

Mae llafaredd yn arf pwerus ar gyfer cynnydd ym mhob pwnc a nod 'Ein Llais Ni' yw eich arfogi i ddatblygu siaradwyr Cymraeg cynyddol hyderus.

Mae prosiect Ein Llais Ni wedi esblygu ac rydym yn eich gwahodd i ddigwyddiad i rannu'r datblygiadau diweddaraf yn ogystal â chael syniadau ac adnoddau ymarferol ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Bydd yr arbenigwr llafaredd Richard Hull o 'Confident Communication' yn ymuno â ni er mwyn edrych yn ymarferol ar sut y gellir defnyddio llafaredd i ysbrydoli disgyblion i 'ddod o hyd i'w llais', mynegi barn, magu hyder a dyfnhau eu dysgu.



Mae'r digwyddiad hwn ar gyfer arweinwyr ac athrawon cynradd, uwchradd ac arbennig sydd â diddordeb mewn llafaredd ac angen gwreiddio addysgeg yn eu dosbarthiadau. Mae'n addas i bawb sydd eisiau dysgu mwy am sut gall y rhaglen Ein Llais Ni eich cefnogi i ddatblygu medrau siarad a gwrando Cymraeg.




## Datblygu Cariad at Ddarllen gyda Neil Griffiths

Mae Neil Griffiths yn gyn-Bennaeth Ysgol Gynradd ac yn awdur hynod boblogaidd nifer o lyfrau lluniau i blant a chyhoeddiadau addysgol. Ef hefyd oedd cyfarwyddwr y Prosiect Cefnogi Llythrennedd Cenedlaethol ar gyfer yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Wrth gwrdd â Neil, buan y gwelwch ei angerdd tuag at blant, a'i awydd i greu system addysg sy'n addas ar gyfer y plentyn, ac sy'n creu bodau dynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd. Mae'n credu'n llwyr mewn arddull plentyn-ganolog, ynghyd â chynllunio pwrpasol, addysgu brwdfrydig a mannau cychwyn gwreiddiol a dilys.

Nid yw'r cyfle i wrando ar Neil yn codi yn aml – gwnewch bob ymdrech i fynychu'r digwyddiad i wrando ar y siaradwr ysbrydoledig hwn! Heb unrhyw amheuaeth, bydd yn sicr yn dylanwadu ac yn cael effaith ar eich darpariaeth darllen. Cliciwch yma am ragor o fanylion.

| DYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER | | DOLEN I GOFRESTRU | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13/11/2023 | Holiday Inn, A55 | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |
| 14/11/2023 | Clwb Pêl-Droed Porthmadog | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |
| 15/11/2023 | M-Sparc, Gaerwen | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |
| 16/11/2023 | Canolfan Fusnes Conwy | SESIWN BORE 9:30-11:45 | SESIWN PRYNHAWN 13:00-15:15 | BORE | PRYNHAWN |

## Ysgrifennu: Strategaethau ar gyfer Cynnydd mewn Ysgrifennu [8-11 oed]

13/11/2023 | 13:30 - 16:30 Venue Cymru, Llandudno COFRESTRWCH

Ar gyfer oedran cynradd 8-11: prynhawn gyda Shirley Clarke. Bydd yn trafod pwysigrwydd pennu meini prawf llwyddiant ar y cyd â'ch dysgwyr, gan ganolbwyntio ar bwrpas ac effaith gwneud hynny yn effeithiol. Bydd hefyd yn trafod sut mae darparu adborth effeithiol er mwyn gwella ansawdd ysgrifennu, a sut mae gwneud hynny drwy rannu sylwadau parhaus â dysgwyr yn ystod sesiynau ysgrifennu.



## Cynhadledd i Athrawon Dyniaethau Uwchradd

16/11/2023 | 9:15 - 15:30 Festival Church Towyn, 87 Gors Road, Towyn, Abergele, LL22 9NR

Bydd cyfle i athrawon wrando ar gyflwyniadau a rhannu arferion addawol. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

| DIGWYDDIAD | LLEOLIAD | DYDDIAD | CYFRWNG | COFRESTRU | TOCYNNAU YN WEDDILL * | DYDDIAD CAU COFRESTRU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fforwm Arweinwyr Llythrennedd Saesneg | Canolfan Fusnes Conwy | 17/10/2023 | ENG | COFRESTRWCH >>> | 44 | 13/10/2023 |
| Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd | Venue Cymru | 17/10/2023 | CYM | COFRESTRWCH >>> | 16 | 16/10/2023 |
| Rhwydwaith Digidol Uwchradd [Môn a Gwynedd] | Galeri, Caernarfon | 17/10/2023 | CYM | COFRESTRWCH >>> | 21 | 16/10/2023 |
| Trosolwg Digidol o Gam Cynnydd 1 a 2 | Swyddfa GwE, Penrallt | 18/10/2023 | CYM | COFRESTRWCH >>> | 10 | 19/09/2023 |
| Rhwydwaith Digidol Uwchradd [Conwy a Dinbych] | Canolfan Fusnes Conwy | 18/10/2023 | DWYIEITHOG | COFRESTRWCH >>> | 11 | 17/10/2023 |
| Rhwydwaith Digidol Uwchradd [Sir y Fflint a Wrecsam] | Gwesty'r Oriel | 19/10/2023 | ENG | COFRESTRWCH >>> | 11 | 18/10/2023 |
| Trosolwg Digidol o Gam Cynnydd 1 a 2 | Gwesty Beaufort Park | 19/10/2023 | ENG | COFRESTRWCH >>> | 10 | 20/10/2023 |
| Cynnydd drwy'r Cyfnod Pontio 3-16 | Holiday Inn A55 Chester West | 20/10/2023 | DWYIEITHOG | COFRESTRWCH >>> | 95 | 20/10/2023 |
| Datblygu Diwylliant Hunan Welliant | Y Cae Ras, Wrecsam | 24/10/2023 | ENG | COFRESTRWCH >>> | 23 | 23/10/2023 |
| Diwrnod Rhaglen Llafaredd 'Ein Llais Ni' | Venue Cymru | 24/10/2023 | CYM | COFRESTRWCH >>> | 100 | 18/10/2023 |
| Datblygu Diwylliant Hunan Welliant | Clwb Pêl-droed Porthmadog | 25/10/2023 | CYM | COFRESTRWCH >>> | 30 | 24/10/2023 |
| Cynnydd drwy'r Cyfnod Pontio 3-16 | Neuadd Reichel Prifysgol Bangor | 26/10/2023 | DWYIEITHOG | COFRESTRWCH >>> | 92 | 26/10/2023 |

**Niferoedd yn gyfredol adeg cyhoeddi'r Bwletin.*

Cadwch olwg ar y dudalen Cynnig Proffesiynol GwE ar ein gwefan. Mae'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd i gynnwys yr holl ddigwyddiadau newydd a gynigir gan GwE.

# RHAGLENNI CENEDLAETHOL

## Athrawon Newydd Gymhwyso [ANG]

**CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL I ANG: TYMOR YR HYDREF**

## Mentoriaid Sefydlu [MS]

**CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL I FENTORIAID SEFYDLU [MS]: 2023-2024**

## Gwirwyr / Mentoriaid Allanol [GA / MA]

**CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL I WIRWYR / MENTORIAID ALLANOL [GA / MA]: 2023-2024**

**Cysylltwch ag Ieuan Jones, GwE, gydag unrhyw ymholiadau:** ieuanjones@gwegogledd.cymru

## Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16 Consortia Addysg Cymru

Yn galw ar holl ddarpar arweinwyr, arweinwyr newydd a phresennol yn y maes ôl-16! Ydych chi eisiau datblygu eich arweinyddiaeth i'r lefel nesaf? Ymunwch â'n Rhaglen Arweinyddiaeth ôl-16 drawsnewidiol a datgloi eich gwir botensial fel arweinydd. Cewch gipolwg gwerthfawr ar addysg ôl-16, ymestyn eich rhwydwaith a gwneud gwahaniaeth i fywydau myfyrwyr yn yr hirdymor. **Cofrestrwch heddiw** i ddod yn arweinydd ysbrydoledig!

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

## Rhaglen Datblygu Darpar CALU



Mae Cylch 8 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Ionawr 2024.
Y **DYDDIAD CAU** yw **24/11/2023**.
**Cliciwch yma** am wybodaeth bellach am y Rhaglen a sut i ymgeisio.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams, Cydlynydd LlDGA.

## Rhwydwaith i Gymorthyddion Addysgu



**07/11/2023 15:45-16:15** **YMUNWCH**

Sesiwn anffurfiol dwyieithog dros MS Teams i rannu gwybodaeth ac arfer dda.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **Elin Hutchinson**.

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

## Prosiect i werthuso Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar: Gwerthuso ymyrraeth Darllen Ailadroddol [iFOR]

Gwahoddir ysgolion i gymryd rhan mewn gwerthusiad o effeithiolrwydd Darllen Ailadroddol, i ddechrau yn nhymor y Gwanwyn 2024. **Ceir rhagor o fanylion yma.**

Darperir yr holl hyfforddiant a'r adnoddau AM DDIM, yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng GwE a CIEREI, Prifysgol Bangor, yn rhan o'n darpariaeth darllen sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a grynhoir **yma**.

Dilynwch y ddolen hon i ganfod mwy ac i fynegi diddordeb: **https://forms.microsoft.com/e/k4ijPxXRUs**

## Allwch chi helpu i wella'r sylfaen dystiolaeth yng nghyd-destun dysgu sillafu?

**Rydym ni'n chwilio am arweinwyr llythrennedd mewn ysgolion cynradd i gwblhau ein holiadur i'n helpu ni i wella'r ddarpariaeth ar gyfer sillafu yn Gymraeg a Saesneg.**

Trwy waith ymchwil ar y cyd â'n partneriaid prifysgol yn ddiweddar mae GwE wedi adnabod yr angen i edrych ar sut y mae dulliau o addysgu sillafu wedi newid, a sut y mae'r rhain yn cymharu â'n gwell dealltwriaeth o sillafu yn sgil yr Wyddor Darllen (Science of Reading).  Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwella ein gwybodaeth o ddysgu sillafu, ac mae ein partneriaid ymchwil wedi datblygu ffyrdd mwy effeithiol o addysgu sillafu.  Mae ymchwilwyr o Brifysgol Leeds Trinity a'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor yn gweithio gyda GwE i werthuso'r ddarpariaeth sillafu bresennol mewn ysgolion ar draws gogledd Cymru. Ein nod yw helpu athrawon i ddefnyddio dulliau sillafu ar sail tystiolaeth i helpu i wella sgiliau dysgwyr yn Gymraeg a Saesneg.

Os ydych chi'n arweinydd llythrennedd neu'n gyfrifol am ddarpariaeth sillafu mewn ysgol gynradd, a fyddech cystal â'n helpu ni i gael darlun manwl gywir o'r ddarpariaeth bresennol trwy gwblhau ein holiadur. Gallwch ddilyn y ddolen hon.

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE


## Cyfarfodydd Rhwydwaith ar gyfer Arweinwyr ac Athrawon / Cymorthyddion sy'n Addysgu'r Oedran 3-8 oed

Yn ystod y cyfarfodydd hyn trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol parthed yr oedran 3 i 8, yn ogystal â rhannu arferion llwyddiannus.

**Ffocws y Rhwydwaith:**
Digidol – Syniadau ar sut i sicrhau cynnydd mewn sgiliau digidol o fewn y ddarpariaeth i ddisgyblion 3 i 8 oed.

**Does dim angen cofrestru ar gyfer y cyfarfodydd rhwydwaith. Gall ymarferwyr fynychu unrhyw leoliad.**

| DYDDIAD | AMSER | LLEOLIAD | IAITH |
|---|---|---|---|
| 13/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Cymerau, Pwllheli | Cymraeg |
| 20/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst | Cymraeg |
| 21/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Maesincla, Caernarfon | Cymraeg |
| 22/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Bro Idris, Dolgellau (Y Prif Safle) | Cymraeg |
| 23/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych | Cymraeg |
| 27/11/2023 | 16:00-17:00 | Ysgol Corn Hir, Llangefni | Cymraeg |



## Bwletin GwE Digidol

Cliciwch yma am yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Tîm Digidol.



## Ailsafoni Asesiadau Personol - Y Diweddaraf

**Cliciwch yma** am yr wybodaeth ddiweddaraf a chanllawiau ar gyfer blwyddyn ysgol 2023-2024.

## Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

**Canolfan Cefnogaeth GwE**: Ieithoedd Rhyngwladol – **Sector Cynradd** a **Sector Uwchradd**

Am fwy o wybodaeth am y rhaglen Dyfodol Byd-eang, cysylltiadau o fewn y tîm, dolenni at bartneriaid a newyddlenni blaenorol, cliciwch yma: **Ieithoedd Tramor Modern - GwE (gwegogledd.cymru)**

**DOLENNI DEFNYDDIOL:** Cysylltiadau a Dolenni **Newyddlen**: Cynradd | Uwchradd

**DYSGU PROFFESIYNOL I YMARFERWYR YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD**

### Fforymau IRh Cynradd Newydd

**Cliciwch yma** ar gyfer yr holl wybodaeth ac i gofrestru.

### Cyfarfodydd Rhwydwaith IRh Uwchradd

**Cliciwch yma** ar gyfer yr holl wybodaeth ac i gofrestru.

### Sesiynau gyda Llysgenhadon Iaith Routes Cymru

Bydd Llysgenhadon Iaith Routes Cymru ar gael i roi sgyrsiau a sesiynau i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru ar ôl hanner tymor mis Hydref 2023. Gall ysgolion gael mwy o fanylion a chofrestru i gael y sesiynau hyn ar **wefan Routes Cymru** neu drwy anfon e-bost i info@routesintolanguagescymru.co.uk erbyn **17/11/2023**

### Uwch-sgilio iaith: Cyrsiau Ffrangeg a Sbaeneg ar-lein i athrawon cynradd

Datblygiad proffesiynol ysgogol a difyr i athrawon! Datblygiad Proffesiynol yn eich pwysau eich hun.
Ar gyfer athrawon sydd â dim neu fawr ddim gwybodaeth o'r iaith y mae'n rhaid iddynt ei chyflwyno.
Ailfuddsoddwch eich dysgu yn uniongyrchol gyda'ch dosbarth!
Mae podlediadau ac animeiddiadau hefyd sydd yn ymwneud ag elfen ddiwylliannol.
Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru eich diddordeb, **cliciwch yma**.

## Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd

Mae'r Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn ganllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion a fydd yn statudol ym mis Medi 2024. Mae'r canllaw yn nodi disgwyliad i bob ysgol gyhoeddi crynodeb i rieni, sy'n rhannu gwybodaeth am gasgliadau hunanwerthuso'r ysgol, cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol, blaenoriaethau gwella lefel uchel a'r cymorth allanol y mae ysgol yn ei gael i i gyflawni ei blaenoriaethau. Er mwyn paratoi at y gofyn hwn, mae criw o ysgolion, mewn cydweithrediad â GwE, wedi cyd-greu dogfennau enghreifftiol fel cymorth i ysgolion y Rhanbarth.

Bellach mae'r sesiynau rhithiol yn rhannu ffrwyth llafur y grŵp hwn. Os hoffech weld y cyflwyniad, templedi/enghreifftiau a recordiadau o'r sesiwn, maent ar gael yma.

## Tuag at 2024: Datblygu Addysgu a Dysgu o Ansawdd Uchel [Athrawon 8-11 oed]

Pwrpas y prosiect peilot yw cydweithio ag athrawon ystod oedran 8-11 i gryfhau a chefnogi prosesau hunan werthuso a gwella ysgolion ymhellach wrth iddynt wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Gwneir hyn drwy werthuso a datblygu dulliau cwricwlwm, cynnydd ac addysgeg. **Manylion llawn ar gael yma**.
Cwblhewch y **ffurflen hon** i fynegi diddordeb neu gallwch gysylltu ag iwantaylor@gwegogledd.cymru

## Holiadur: Athrawon Dyniaethau Uwchradd

A fyddech cystal â llenwi ein holiadur ar gyfer athrawon Dyniaethau Uwchradd os gwelwch yn dda? Atebwch y cwestiynau yng nghyd-destun eich cynllunio ar gyfer dysgwyr B7 a B8. Mae'n cymryd tua 15 munud i'w gwblhau ac rydym yn gobeithio derbyn ymatebion pawb erbyn hanner tymor mis Hydref. Mae croeso i chi rannu'r ddolen ag unrhyw gyd-weithwyr sydd â diddordeb mewn ymateb i'r holiadur ac/neu sy'n awyddus i ymuno mewn rhwydwaith Dyniaethau. https://forms.office.com/e/Y1rVHKq9ty

### Ydych chi am symud ymlaen gyda Cariad@Ddarllen yn eich ysgol eleni?

05/12/2023 | 9:15-12:30 Venue Cymru, Llandudno [COFRESTRWCH]

Dewch i ymuno â chyd-weithwyr am y bore i gael clywed am eu taith, y cynnydd a wnaed wrth greu diwylliant ar gyfer cariad@ddarllen a'r strategaethau a roddwyd ar waith i weithredu hyn. Byddwn yn rhannu eich llwyddiannau a'ch canfyddiadau ac yn dysgu mwy am sut y gallwn hyrwyddo'r cyswllt hanfodol hwn yn nhaith ddarllen dysgwyr er mwyn dod â nhw'n nes at fod yn ddarllenwyr llwyddiannus.

Bydd y rhwydwaith hwn yn parhau drwy gydol y flwyddyn er mwyn dod â ni ynghyd i edrych ar strategaethau ac adnoddau mwy effeithiol, a bydd yn cynnwys cyfraniad arbenigol gan academyddion ac addysgwyr ym maes darllen. Yn y cyfarfod hwn ym mis Rhagfyr, bydd yr Athro Manon Jones o Brifysgol Bangor yn rhannu sut mae dysgwyr yn datblygu sgiliau darllen allweddol, a sut y gallwn roi strategaethau a pholisi ar waith yn effeithiol i gefnogi ein dysgwyr.

## Y GYMRAEG

### Cyfuno Sgiliau Digidol a Llythrennedd ar Draws y Cwricwlwm - Cymraeg

09/11/2023 | 9:30-15:30 Swyddfa GwE, Penrallt, Caernarfon [COFRESTRU]

Rhaglen ymarferol, dros dri diwrnod, sy'n archwilio'r cyfleoedd i gymhwyso sgiliau digidol a llythrennedd yn greadigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r rhaglen ar gyfer athrawon sy'n addysgu dysgwyr rhwng 8 a 14 oed. Nod y rhaglen yw archwilio'r cyfleoedd i ddefnyddio cyfuniad o sgiliau digidol a llythrennedd i ehangu'r dysgu ar draws y cwricwlwm. Byddwn yn cynnal gweithdai ymarferol i roi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau digidol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o sut i hyrwyddo a datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr.

### Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion: 07/11/2023

**CYNLLUNIO DATBLYGIAD IAITH GYMRAEG I YMARFERWYR**

Bydd y [rhestr chwarae] hon yn helpu arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir am Sgiliau Iaith Gymraeg ymarferwyr yn erbyn y [Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg] wrth gwblhau'r [Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)], ac yn eu helpu i gynllunio dysgu proffesiynol addas i ddatblygu cymhwysedd iaith pob ymarferydd yn strategol. **Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif Hwb i gael mynediad i'r rhestr chwarae hon.**

### Diwrnod Shwmae Su'mae

15/10/2023




Bydd diwrnod Shwmae Su'mae yn dathlu 10 mlwyddiant eleni – a fedrwch chi wneud 3 peth yn Gymraeg i ddathlu'r deg?! Gan fod y 15fed ar ddydd Sul eleni, gwnewch yn siŵr eich bod yn dathlu yn yr ysgol, yn y coleg neu'r gweithle yn ystod yr wythnos cyn hynny!
Cyfle i gael hwyl a rhannu'r iaith – yn y siop, y ganolfan hamdden, yn y gwaith, yn yr ysgol, ar y maes chwarae a gyda'ch ffrindiau, ar-lein neu wyneb yn wyneb!
Y peth pwysig yw cydnabod a dathlu'r diwrnod ym mha bynnag ffordd y gallwch!
[Cliciwch yma] am adnoddau.

### Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg

**CWRS UWCH AR GYFER CYMORTHYDDION [EBRILL-GORFFENNAF 2024]**

Ydych chi'n siaradwr eithaf rhugl [Iaith Gyntaf ac Ail Iaith]? Angen mwy o wybodaeth? [Cliciwch yma].

CYMRAEG

## Ydych chi Eisiau Cryfhau eich Cymraeg? [*Gloywi Iaith*]

**Pa lefel ydych chi ei hangen?** Pa lefel ydw i?

**Beth sydd ar gael?** Dewis eang, yn cynnwys cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg. Dulliau gwahanol o ddysgu, yn cynnwys hunan-astudio a chyfle i ddysgu yn y gymuned. Cymraeg Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg

**Angen mwy o wybodaeth?** Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu GwE:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | SianParryEurig@Gwynedd.llyw.cymru | **Ynys Môn** | OwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |
| **Conwy** | diane.evans@conwy.gov.uk | **Sir Ddinbych** | gareth.williams@denbighshire.gov.uk |
| **Sir y Fflint** | rhian.roberts@flintshire.gov.uk | **Wrecsam** | Dwynwen.Jones@wrexham.gov.uk |
| **GwE** | SgiliauIaithGymraeg@gwegogledd.cymru | | |

## Dyddiau agored – Y Gymraeg yn ein hysgol ni

**DEWCH I WYBOD MWY AM SUT I DDATBLYGU'R GYMRAEG O FEWN EICH CWRICWLWM**

***AR GYFER YSGOLION CYNRADD***

**Cofrestrwch eich diddordeb mewn ymweld â'r ysgol (mae llefydd yn brin).**

**BORE AGORED**

**DATBLYGU'R GYMRAEG MEWN YSGOL CYFRWNG SAESNEG**

Cynhelir yn Ysgol Y Llan, Chwitffordd, Treffynnon (CH8 9AN)

**Pryd**: 19/10/2023 – 9:15-12:00

Cyfle i weld gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ar waith a'i heffaith ar ddysgwyr, yn cynnwys sgwrs gan yr Uwch Dîm Arwain, trafod gyda dysgwyr a staff addysgu a gweld dosbarthiadau a gwasanaeth.

Cynulleidfa: Aelodau o uwch dîm arwain ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (mae llefydd yn brin)

Er mwyn cofrestru eich diddordeb i fynychu cwblhewch y ffurflen hon

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhian Roberts: rhian.roberts@flintshire.gov.uk

Ni ddarperir cinio.

## Achredu Gwobr Efydd Siarter Iaith Uwchradd [GwE] i Ysgol Aberconwy

Ar 15/09/2023 derbyniodd Ysgol Aberconwy Wobr Efydd Siarter Iaith Uwchradd (GwE), yr ysgol uwchradd gyntaf yn y rhanbarth i dderbyn y wobr hon. Bu Luned Parry (Dirprwy Bennaeth Adran y Gymraeg) yn cydweithio â Thîm y Gymraeg GwE yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gywain y dystiolaeth ar gyfer y wobr, a bu'n wefr i Luned a'r ysgol sylweddoli cymaint a wnaed ar hyd y blynyddoedd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd ymysg eu dysgwyr. Yr hyn hefyd fu'n gwbl allweddol ar hyd y daith fu gweledigaeth Uwch Dîm Rheoli'r ysgol a chefnogaeth y Pennaeth, Mr Ian Gerrard. Gwaith tîm fu ennill y wobr hon ac mae'r gwaith, a'r daith, yn parhau . . . ymlaen tuag at y Wobr Arian!



# IECHYD A LLES

## Sgyrsiau TEDx a Gwyliau Llesiant

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion.

Er mwyn cofrestru eich diddordeb a threfnu sgwrs am sut gall eich ysgol gymryd rhan, cysylltwch â Sarah Harvey ym Mhrifysgol Wrecsam drwy ffonio 0789 468 077 neu anfonwch e-bost at sarah.harvey@glyndwr.ac.uk.

## SHRN - Gweminarau Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion

Gweler isod y dolenni i ddwy weminar a gynhaliwyd yn ddiweddar, a fydd o ddiddordeb.

**SHRN Cynradd: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2022/23 - Canfyddiadau Cenedlaethol**

Mae Dr Kelly Morgan, Dr Caitlyn Donaldson ac Amy Edwards, Prifysgol Caerdydd, yn cyflwyno eu canfyddiadau o'r rownd ddiweddar o gasglu data ysgolion cynradd. https://www.youtube.com/watch?v=jxVpM1RMeWo

**Ymyraethau mewn Ysgolion i Atal Trais Perthnasol a Chadw a Thrais ar Sail Rhyw**

Mae Dr GJ Melendez-Torres, Prifysgol Caerwysg, yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth ddiweddar.
https://www.youtube.com/watch?v=Yfhey45QIq8

Os oes gennych unrhyw gwestiynau i dîm SHRN, neu os hoffech fynychu gweminarau yn y dyfodol, anfonwch e-bost i shrn@cardiff.ac.uk

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

## Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion: e-Newyddion ar gyfer Ysgolion Cynradd

**Cliciwch yma** ar gyfer y cylchlythyr.

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Penaethiaid: Oes gennych chi ddiddordeb mewn cael sgwrs gyda'r Gweinidog?

**12/10/2023 | 16:30-17:30**

Os hoffech gymryd rhan mewn sgwrs agored ac anffurfiol gyda'r Gweinidog anfonwch ebost at Dysg@llyw.cymru

## Ymgynghoriad

Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r Daith

## Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd

Canllaw Datganiad i'r Wasg

## Cylchlythyr y Comisiwn dros Addysg Drydyddol ac Ymchwil

## Ymchwil GEM Cymru i Ddysgu Treftadaeth a'r Cwricwlwm Newydd

Fel rhan o waith a ariennir gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru, mae'r Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd yn dechrau gwerthuso a dadansoddi canlyniadau / effaith y prosiectau a gynhaliwyd yng Nghymru er 2021. Mae hyn yn cynnwys adolygu pa mor llwyddiannus yw dysgu treftadaeth yn y Cwricwlwm i Gymru a sut mae ysgolion yn ymgysylltu ag amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd astudiaethau lleol, gan nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac ystyried anghenion cymorth ar gyfer lleoliadau treftadaeth lleol wrth symud ymlaen.

A fyddech cystal â rhoi eich barn ar y tri maes allweddol hyn:

- Ers cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a ydych chi'n meddwl bod ysgolion yn ymgysylltu mwy â'u treftadaeth leol? Os felly, sut?
- Yn eich barn chi, beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer gwasanaethau dysgu treftadaeth wrth symud ymlaen (yn ymwneud â CaW)?
- Sut ydych chi'n gweld y berthynas rhwng ysgolion a lleoliadau treftadaeth lleol yn newid dros y blynyddoedd nesaf? Ydy o wedi newid eto?

Os hoffech drafod eich syniadau ymhellach, cysylltwch â **Robin Johnson**.

GEM We connect & learn together · Ariennir gan Lywodraeth Cymru · Funded by Welsh Government

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol · Regional School Improvement Consortia

## Dysgu Proffesiynol Trawsranbarthol ar y Cwricwlwm i Gymru

Er mwyn helpu pob ysgol a lleoliad ledled Cymru i gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr gan y tîm Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol.

Mae'r Rhaglen ar gyfer 2023/24 bellach wedi'i chyhoeddi, gweler y llyfryn am ddyddiadau allweddol a dolenni i'r sesiynau rhithiol.

### SESIYNAU ASESU

Mae sesiynau ar gael i Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr/Athrawon Canol gyda phwyslais ar ddilyniant ac asesu. Bydd y sesiynau hyn yn cynnig cymysgedd o adolygu canllawiau polisi a chymorth ymarferol i ymarferwyr.

| SESIWN | AMCANION Y SESIWN | DYDDIAD |
|---|---|---|
| Adeiladu arferion asesu effeithiol. | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Ystyriaethau ar gyfer cylch asesu effeithiol yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru<br>• Ystyriaethau o ran pa mor aml y gallwn asesu gan ddefnyddio gwahanol ddulliau asesu a'r dulliau asesu at ddibenion gwahanol<br>• Y mathau o asesu a fydd yn ein galluogi i wneud casgliadau ffurfiannol a diagnostig da | 16/10/2023 |
| Beth yw ein cynllun hirdymor ar gyfer cynnydd? | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Ystyriaethau ar gyfer cynllunio hirdymor ar gyfer cynnydd, gan gynnwys pa mor aml y gellir ailedrych ar gysyniadau allweddol y datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig<br>• Archwilio dulliau o gynllunio ar gyfer cynnydd ac asesu mewn gwahanol ddisgyblaethau a meysydd<br>• Gosod bwriadau dysgu i gefnogi cynnydd yn y tymor byr i'r tymor canolig | 23/11/2023 |

**Bydd pob sesiwn yn cael ei recordio ac ar gael i'w gwylio eto yn anghydamserol ar y ddolen hon: Consortia Addysg Cymru - Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru**

## SESIYNAU MDaPh

Mae sesiynau penodol wedi'u cynllunio i'ch cefnogi efo datblygu addysgu a dysgu ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Yn benodol dyma'r arlwy tymor yma:

| SESIWN | AMCANION Y SESIWN | DYDDIAD |
|---|---|---|
| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Sut i ddatblygu'r MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy weithio clwstwr, gan ganolbwyntio ar gynllunio cwricwlwm 3-16, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 26/10/2023 |
| Iechyd a Lles | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Ddylunio cwricwlwm trosfwaol ar gyfer y MDPh Iechyd a Lles<br>• Prosesau a myfyrdodau yng nghyd-destun datblygu'r Maes Iechyd a Lles, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 07/11/2023 |
| Y Celfyddydau Mynegiannol | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn disgyblaethau yn y MDaPh Celfyddydau Mynegiannol, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 16/11/2023 |
| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn clystyrau, gan ganolbwyntio ar gynnydd o fewn cwricwlwm 3-16, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 21/11/2023 |
| Y Dyniaethau | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Sut i gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn MDPh y Dyniaethau, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 27/11/2023 |
| Mathemateg a Rhifedd | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Gynnydd ac asesu o fewn y MDPh Mathemateg a Rhifedd, gan gynnwys enghreifftiau o ysgolion<br>• Cyfleoedd i rannu a thrafod dulliau gan ysgolion a lleoliadau ledled Cymru | 06/12/2023 |

Gallwch ymuno â'r sesiynau trwy ddolenni yn y **Rhaglen yma**.

Mae sesiynau Cymraeg a Saesneg ar gael. Mae sesiynau hefyd yn ystod oriau ysgol ac ar ôl ysgol. Byddant hefyd ar gael i chi yn anghydamserol ar y **wefan hon**.

## Rhaglen Cymell a Mentora Genedlaethol

Lleoedd ar gael y tymor hwn ar y Rhaglen Cymell a Mentora Genedlaethol. Am ragor o wybodaeth, **cliciwch yma**.
I gofrestu, cwblhewch y ffurflen **hon**.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Cyfoeth Naturiol Cymru: Cylchlythyr [mis Hydref]

Mae Cylchlythyr Addysg, Dysgu ac Iechyd mis Hydref, Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gyhoeddi.
Dyma ddolen iddo.

## Cyflwyniad i Gyfnewidiadau Rhyngwladol ar gyfer Ysgolion gan Raglen Taith

**18/10/2023 - 10:00-12:00 - Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst**

Bydd mynychwyr yn dysgu am y broses o gyflwyno cais Taith ac am y mathau o weithgareddau y gellir eu cefnogi drwy'r rhaglen. Ymunwch â ni i ddarganfod yr hyn y mae bod yn rhan o brosiect rhyngwladol yn ei olygu mewn gwirionedd, a sut y gall cydweithio rhyngwladol fod o fudd i ysgolion a'u disgyblion.

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion ac i gofrestru.

## Pori Drwy Stori - *BookTrust* Cymru

**Pori Drwy Stori: Meithrin**

Nifer cyfyngedig iawn o lefydd sydd ar gael ac mae amser cyfyngedig i gofrestru eleni. Mae'r cofrestru'n cau: **23/10/2023**. **Cliciwch yma** am ragor o fanylion. Dilynwch y ddolen **hon** i gofrestru.

**Adnoddau Pori Drwy Stori ar gyfer y Dosbarth Derbyn**

Dylai pob dosbarth Derbyn yng Nghymru fod wedi cael adnoddau Pori Drwy Stori tymor yr Hydref ym mis Gorffennaf.

**Cliciwch yma** i weld yr adnoddau sydd gennych chi i'w defnyddio'r tymor hwn.

## Cyfranwyr Creadigol Mentrus

**Dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysgu 3-16**

Mae Gyrfa Cymru, mewn cydweithrediad â'r consortia rhanbarthol, yn falch o fod yn cynnig **cyfres o gyfleoedd dysgu proffesiynol rhad ac am ddim ar Gyfranwyr Creadigol Mentrus** i ymarferwyr addysgu 3-16 ledled Cymru yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn.

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion neu cysylltwch â sean.parry@gyrfacymru.llyw.cymru

## Rhaglen Taclo Effaith Tlodi ar Addysg

**Ymunwch â llawer o ysgolion eraill ledled Cymru sy'n gwneud NEWIDIADAU BACH yn eu trefniadau dyddiol, ond GWAHANIAETHAU MAWR i fywydau'r dysgwyr hynny y mae incwm is a chostau byw cynyddol yn effeithio ar eu teuluoedd.**

Ymunwch am DDIM â'r rhaglen Taclo Effaith Tlodi ar Addysg gan ddefnyddio'r canllawiau Pris Tlodi Disgyblion. Byddwch yn cael mynediad i Blatfform Cymunedol i rannu syniadau ac arfer orau, a phecyn cymorth cynhwysfawr a fydd yn helpu i lywio gwaith cynllunio eich ysgol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: pupilpoverty@childreninwales.org.uk neu cofrestrwch **yma**.

Mae'r canllawiau i'w gweld ar wefan Addysg Llywodraeth Cymru: **HWB**